

Credyd: Hana Backland.

Rydym yn gweithio tuag at weledigaeth newydd uchelgeisiol ar gyfer treftadaeth y DU ac am yr hyn y bydd ein buddsoddiad yn ei gyflawni. Rydyn ni eisiau i chi fod yn rhan o'i siapio.

Tudalen diweddarwyd ddiwethaf: 5 Medi 2022

P'un a ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn treftadaeth, neu'n syml â barn am ddyfodol treftadaeth yn y llefydd rydych chi'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw, rydyn ni eisiau clywed gennych chi.

> Helpwch ni i siapio sut y byddwn yn cydweithio yn y blynyddoedd i ddod a'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud ar gyfer treftadaeth gyfoethog ac amrywiol y DU.
>
> *Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

Dywed Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Fel cyllidwr penodedig mwyaf i dreftadaeth y DU, mae'n bwysig ein bod ni'n deall ac yn cydweithio â chi - y rhai sy'n adnabod y sector a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu - ar sut rydym yn parhau i fuddsoddi mewn treftadaeth a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i werthfawrogi nawr ac yn y dyfodol.

"Helpwch ni i siapio sut y byddwn yn cydweithio yn y blynyddoedd i ddod a'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud ar gyfer treftadaeth gyfoethog ac amrywiol y DU."

Ysbrydoliaeth

Remote video URL

Rydym wedi ymgorffori cynnwys o YouTube yma. Gan y gall YouTube gasglu data personol ac olrhain eich ymddygiad gwylio, byddwn ond yn llwytho'r fideo ar ôl i chi gydsynio i'w defnydd o gwcis a thechnolegau tebyg fel y disgrifir yn eu polisi preifatrwydd. Byddwn hefyd yn gosod cwci i gofio eich dewis.

Ydw, rwy'n cytuno Gwyliwch ar YouTube

Cymryd rhan

Diweddariad: mae ein harolygon strategaeth bellach ar gau. Diolch i bawb a rannodd eu barn ar ddyfodol treftadaeth y DU gyda ni.

Darllenwch fwy